CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 21, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 21, 2017 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Hugh A. Evans, Mordaf Roberts, Geraint Evans, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 17, 2017

Wedi cywiro nid oedd Gerallt Griffith yn Presennol, cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 17, 2017

Eitem 6.b. Galwad ffôn (26/10/2017) oddi wrth Eira Humpries yn rhoi gwybod bod y fainc yn Brithdir (oedd gael ei drwsio gan Meurig Ashton) wedi ei symud o'r safle gan weithwyr oedd yn gweithio ar ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Y swyddogion yn yr Adran sydd yn gyfrifol am hyn yw Mr Michael Evans / Mr Rees Evans. Y bwriad yw cael trwsio'r fainc a'i osod mewn lle newydd. Rhoddwyd gwybod i Peredur Jenkins a Meurig Ashton..

Eitem 10.a. Llythyr ateb (7/11/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

1. Maent am glirio'r dŵr oddi ar ffordd Rhiwfelen, Abergeirw ac wedyn asesu'r ffordd.

2. Maent am agor y draen sydd dan ffordd rhwng Clywedog Lodge a mynedfa i Dolwartheg.

3. Maent am dorri'r coed o amgylch yr arwydd 'Give Way' sydd ar gyffordd Drwsynant.

4. Mae ein cais am yr angen agor ffos rhwng Dolfeili a Glanwnion, Rhydymain oherwydd mae dŵr yn sefyll ar y ffordd, wedi ei phasio i Uned Cefnffyrdd ym Mangor.

Nid ar y ffordd A494 mae'r diffyg. Mae Peredur Jenkins am gysylltu â

Priffyrdd ynglŷn â'r mater.

5. Bydd Swyddog yn cael golwg ar y llwybr cyhoeddus ar dir March Gwyn, Brithdir pan fydd amser yn caniatáu.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/10/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bod Swyddog o Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf am roi gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â CCG yn gwerthu tir wrth dai Hengaer.

Cafwyd gwybod mae'n debygol ni fydd y tir yn cael ei werthu a bydd y fainc yn Eitem 5. Eitem 6.b. uchod yn cael ei ail leoli yn ei lle gwreiddiol.

b. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cyfraniad ariannol i gynorthwyo eu gwasanaeth.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae dyddiad Pwyllgor Ardal Meirionnydd wedi newid i ddydd Mawrth, Tachwedd 28.

ch. Llythyr (13/11/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 28, 2017 am 7.00yh. Bydd Emma Quaek yn bresennol yn rhoi gwybodaeth ar Dementia. Amgau mae Agenda, Cofnodion y pwyllgor chynhaliwyd ar Medi 26, 2017, a gwybodaeth ar Aros yn Iach.

Gweler o'r Cofnodion bod John Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn ymddeol. Mae awgrym i Un Llais Cymru canfod Archwiliwr Mewnol.

d. Llythyr (26/10/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bod Toiledau Rhydymain ar fin cael ei werthu drwy dendro.

dd. Llythyr (26/10/2017) oddi wrth Menter Egni Abergeirw. Amgáu mae Agenda eu Cyfarfod Blynyddol am 8.00yh ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd 2017 yn Neuadd Rhydygorlan. Mae croeso i gynrychiolydd o'r Cyngor fod yn bresennol.
Amgáu hefyd mae Adroddiadau Blynyddol 2014/15, 2015/16 a 2016/17 a Chofnodion Blynyddol cynhaliwyd ar 18/7/2014.

e. Llythyrau (8 a 10/11/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Coed y Brenin Trial Duathlon, 2017 yn cymryd lle ar ddydd Sul, Tachwedd 12, 2017. Mae hyn yn golygu bydd rhai llwybrau cyhoeddus ar gau ar y diwrnod.

f. Llythyr (16/11/2017) oddi wrth Calonnau Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Llythyr (17/11/2017) oddi wrth y Groes Goch Brydeinig. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Galwad ffôn (18/10/2017) oddi wrth y Parc yn holi lle'r oedd y 4 coeden afal i fynd. Penderfynwyd derbyn y cynnig o'r coed yn ein cyfarfod mis Mai.

Mae Meithrinfa Seren Fach wedi derbyn 2 ac Ysgol Bro Idris, Rhydymain wedi derbyn 2. Mi fydd ychydig o ffys i'w plannu.

b. Ceisiadau cynllunio.

1. NP5/54/25A. Cynllun trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 34kw yn cynnwys argae, pibell tanddaearol, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad trydan grid tanddaearol. Afon Ceirw, Cyplau, Abergeirw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

2. NP5/54/440B. Gosod tanciau septig. Ysguboriau Rhif 2 a 3, Coed Brithgwm, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

3. NP/5/54/LU16Q. Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) i ddefnyddio'r adeilad fel gweithdy gwneuthuriad dur. Llwyn-yr-Helm, Brithdir.

Nid barn y Cyngor sydd ei angen ond gwybodaeth bersonol gan Gynghorwyr o ddefnydd y tir yma yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Penderfynwyd rhoi gwybod mae'r gweithdy wedi cael ei ddefnyddio i neud gwaith dur fel siediau, gatiau, allanfa dan, fframiau tai, railings, weldio ceir a cherbydau masnachol yn ogystal â thrwsio bob math o beiriannau ers mwy na deg mlynedd. Mae'n gyflogwr pwysig i'r ardal ac un tro roedd 10 o bobol yn cael eu cyflogi yno.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (20/10/2017) oddi wrth Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500 at y neuadd. Amgáu mae Mantolen ar gyfer 2016-2017.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2017: £1,136.59.

c. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2017: £6,898.26

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Gyda Llywodraeth Cymru am roi llai o arian i gynghhorau sir, mae'n debygol bydd Cyngor Gwynedd yn torri lawr eto ar y gwasanaethau maent yn ei roi. Mae'n debygol bydd llai o gefnogaeth yn cael ei roi i sefydliadau fel yr Urdd a Ffermwyr Ifanc.

10. Unrhyw fater arall

Cafwyd gwybod bod Neuadd Bentref Rhydymain gyda 'defibrillator'.

Llofnod: Dyddiad: